

## Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

### Arholiad Ionawr 2022

Uned 330	Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru	17 Ionawr 2022 AM
----------	--	-------------------

# Gwybodaeth Ymlaen Llaw

## Gwybodaeth Gyffredinol i fyfyrwyr ac athrawon

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn nodi'r hyn y bydd cynnwys rhai o gwestiynau papur arholiad Ionawr 2022 yn canolbwyntio arno.

Y testunau dan sylw yw'r testunau hynny sy'n berthnasol i'r cwestiynau â'r nifer mwyaf o farciau ar y papur.

Bydd cwestiynau am feysydd cynnwys eraill hefyd sydd ddim wedi'u nodi yn yr hysbysiad hwn.

Dylid anelu o hyd at ymdrin â holl gynnwys y fanyleb wrth addysgu a dysgu.

Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfres arholiadau arall.

Bwriad y wybodaeth hon yw cefnogi'r broses o adolygu.

Gellir ei defnyddio ar unrhyw adeg o'r dyddiad y cafodd ei rhyddhau.

Ni ddylid mynd â'r wybodaeth hon i mewn i'r arholiad.

## Gwybodaeth ychwanegol i fyfyrwyr ac athrawon

- Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn ymdrin ag Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain Ganrif yng Nghymru yn unig.
- Awgrymir y dylid canolbwyntio'n benodol ar y meysydd cynnwys sy'n dilyn wrth adolygu a pharatoi'n derfynol, yn barod at arholiadau Ionawr 2022.
- Nid yw strwythur y papurau arholiad yn newid.
- Dylid ymdrin o hyd â holl gynnwys y pwnc yn y fanyleb yn rhan o'r addysgu a dysgu. Mae'n bwysig bod ymdriniaeth y myfyrwyr â'r cwricwlwm mor llawn â phosibl. Dylent fod wedi'u paratoi cystal â phosibl i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.
- Gallwch chi ofyn i'ch athro am gyngor a thrafod yr hysbysiad hwn ag aelodau eraill eich dosbarth.
- Gallwch chi ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd ar gael i chi i ymchwilio i'r testunau/themâu sydd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad hwn.

Deilliant Dysgu	Meini Prawf Asesu	Ymhelaethiad o'r Cynnwys
2.1	Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad	Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall gweithredoedd, agweddau a phrofiadau yn y cartref ac y tu allan i amgylchedd y cartref gael effaith ar ymddygiad plentyn.
3.2	Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed	Dylai dysgwyr wybod a deall swyddogaeth/rôl, gwerth ac effaith sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd ar blant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 mlwydd oed.  Y profion nad ydynt yn rheolaidd i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• profion genetig</li> <li>• sganiau, e.e. sganiau cyn-geni ychwanegol</li> <li>• profion ar gyfer cyflyrau iechyd ac anhwylderau penodol</li> </ul>
3.3	Rolau gweithwyr iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector	Dylai dysgwyr wybod a deall y gwahanol rolau a gyflawnir gan weithwyr/gweithwyr proffesiynol iechyd plant yn y sector amrywiol hwn a sut maen nhw'n hybu iechyd plant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 mlwydd oed. Gweithwyr proffesiynol a thimau gofal iechyd i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydwraig</li> </ul>

5.1	Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer	<p>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae damcaniaethau a dulliau cyfoes a sefydledig yn llywio ymarfer a sut gellir eu defnyddio i wneud newid mewn lleoliadau.</p> <p>Damcaniaethau cyfoes a sefydledig i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Elinor Goldschmied: Chwarae Hewristig a Basgedi Trysor</li> </ul>
5.4	Effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, dulliau a mentrau cyfredol y llywodraeth ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.	<p>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.</p> <p>Gall mentrau/canllawiau/dulliau dysgu gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgolion Iach</li> </ul>

Diwedd y wybodaeth ymlaen llaw